

DAEARYDDIAETH FFISEGOL

Amser - 1.5 awr

Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr:

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau Adran A i gyd, ac ateb **un cwestiwn yn unig** o Adran B.

ADRAN A (50%)

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r adran hon.

1. Paratowch dabl yn manylu ar 5 o dirffurfiau mewn amgylchedd o'ch dewis chi (e.e. rhewlifol, arfordirol, sychdir). Disgrifiwch i) eu nodweddion morffolegol, ii) sut y cânt eu ffurfio, a iii) eu harwyddocâd mewn cyd-destun ehangach. Ni ddylai ymgeiswyr atgynhyrchu'r enghraifft isod.

Enghraifft:

Tirffurf	Nodweddion morffolegol	Proses eu ffurfio	Arwyddocâd mewn cyd-destun ehangach
Marian Terfynol	Cribyn bwaog o glog-glai â dosbarthiad gwael yn amrywio o ddeunydd mân (e.e. clai) i ddeunydd bras (e.e. clogfaen). Nodwedd ar raddfa fawr iawn a all fod dros 100 metr o uchder, a channoedd o fetrau o ran hyd.	Caiff deunydd sy'n cael ei gludo gan y rhewlif ei grynhoi ym mlaen y rhewlif (y man terfyn) wrth i'r rhew doddi.	Yn nodi hyd a lled y rhewlif fel ag yr oedd, yn dangos ei fod yn weithredol, ac yn gallu erydu'r dirwedd, gan gludo deunydd i lawr y dyffryn gyda llif y rhew.

Trefn marcio:

Tirffurf	Nodweddion morffolegol	Proses eu ffurfio	Arwyddocâd mewn cyd-destun ehangach
1 marc am bob tirffurf a nodir	Uchafswm o 3 marc fesul disgrifiad o nodweddion morffolegol	Uchafswm o 3 marc fesul disgrifiad o forffoleg	Uchafswm o 3 marc fesul disgrifiad o arwyddocâd

Mae cyfanswm o 50 marc ar gael am Adran A.

... parhad

ADRAN B (50%)

Rhaid i ymgeiswyr ateb un o'r cwestiynau canlynol:

1. Gan roi enghreifftiau, trafodwch sut y gall perygl naturiol effeithio ar bobl a'r amgylchedd adeiledig.
2. Beth sy'n dylanwadu ar y newid yn arllwysiad afonydd yn unrhyw flwyddyn benodol?
3. Gan ddefnyddio enghreifftiau, trafodwch sut y mae gweithgaredd pobl wedi newid storfeydd carbon ledled y byd.
4. Trafodwch pam y mae Daearyddiaeth Ffisegol yn ddisgyblaeth bwysig.